Senedd Cymru
**Ymweld a dysgu**

# Archwilio'r Senedd:

## Llyfr Gweithgareddau



senedd.cymru

**Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl.**

Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

**© Hawlfraint Comisiwn Senedd 2022**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neugyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.



# Yn dy gynrychioli di

Mae gan y bobl sy'n cael eu hethol bob 5 mlynedd i dy gynrychioli di yn y Senedd bwerau i siapio'r rhan fwyaf o feysydd bywyd yng Nghymru.

**Enw'r Llywydd yw:**

**Fy Aelod etholaethol o'r Senedd yw:**

**Fy Aelodau rhanbarthol o'r Senedd yw:**

### A wyddost ti?

Yng Nghymru, mae pawb yn cael eu cynrychioli gan bum Aelod o'r Senedd. Pobl o bob cwr o Gymru yw'r rhain sy'n gallu dod â'ch pryderon gerbron y Senedd.

Rwyt ti hefyd yn cael dy gynrychioli gan un Aelod o Senedd y DU. Mae Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol y DU yn edrych ar bethau gwahanol.

.

## Y Senedd neu Senedd y DU?

Mae'r rhestr isod yn dangos rhai meysydd bywyd yng Nghymru, ond pwy ydych chi'n meddwl sy'n gyfrifol am edrych arnynt:
**Aelodau o'r Senedd**, neu **Aelodau o Senedd y DU**?

**Rho groes yn y cylch i ddangos pwy wyt ti'n meddwl sy'n edrych ar bob maes.**

| Meysydd bywyd | Senedd Cymru | Senedd y DU |
|---|---|---|
| Gwasanaethau bysiau | ○ | ○ |
| Carchardai | ○ | ○ |
| Trydan | ○ | ○ |
| Amgueddfa Cymru | ○ | ○ |
| Cydnabod rhywedd | ○ | ○ |
| Awtistiaeth | ○ | ○ |
| Caethwasiaeth fodern | ○ | ○ |
| Diogelwch ar y rhyngrwyd mewn ysgolion | ○ | ○ |



## Aelodau o'r Senedd

Mae Aelodau o'r Senedd yn cynnal cymorthfeydd rheolaidd, ac yn rhoi'r cyfle i ti leisio dy bryderon wyneb yn wyneb, a chael dweud dy ddweud.

**Gwna restr o waith arall y bydd dy Aelod o'r Senedd yn ei wneud:**

### A wyddost ti?

Mae Cymru yn wlad ddatganoledig.

Ystyr hyn yw bod rhai meysydd pwysig o fywyd (materion datganoledig) yng Nghymru yn dod o dan gyfrifoldeb Aelodau o'r Senedd, tra bod meysydd eraill (materion a gedwir yn ôl) yn parhau i ddod o dan gyfrifoldeb Senedd y DU a Llywodraeth y DU.

Ers 1999, mae datganoli wedi trosglwyddo pwerau o San Steffan i Senedd Cymru a Llywodraeth Cymru.

### A wyddost ti?

Newidiodd 'Cynulliad Cenedlaethol Cymru' ei enw i 'Senedd Cymru' yn 2020.

Yn Saesneg, ei henw yw **Welsh Parliament**.

## Gwaith ymchwil ar-lein:

Mae'r Cyfarfod Llawn yn digwydd ddwywaith yr wythnos. Dyna pryd y bydd holl Aelodau o'r Senedd yn dod ynghyd i drafod materion pwysig.

**Defnyddia wefan y Senedd i ddarganfod beth sy'n digwydd yn y Cyfarfod Llawn yr wythnos hon.**

**Rhestra 3 phwnc y bydd yr Aelodau o'r Senedd yn eu trafod yr wythnos hon yn y Cyfarfod Llawn:**

## Gwaith ymchwil ar-lein:

Mae llawer o grwpiau a sefydliadau ymgyrchu yn cysylltu ag Aelodau o'r Senedd i godi materion sydd o bwys iddyn nhw, ac i geisio newid pethau.

**Lobïo yw hyn.**

**Darganfod mwy am y grwpiau canlynol:**



## Gwaith ymchwil ar-lein

Dysga am ddeiseb ddiweddar a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Deisebau.

**A wyt ti'n cytuno â syniad y deisebydd ar gyfer newid? Pam?**

## A wyddost ti?

Mae Pwyllgor Deisebau'r Senedd yn edrych ar ymgyrchoedd a syniadau sy'n cael eu hanfon ato gan unigolion a grwpiau yng Nghymru.

Mae modd llofnodi'r deisebau hyn neu gyflwyno rhai dy hun drwy chwilio am Ddeisebau ar wefan **senedd.cymru**.

# Dy bleidlais di, Dy lais di

Caiff Aelodau o'r Senedd eu hethol bob 5 mlynedd. Mae gan bawb yng Nghymru sy'n 16 oed neu'n hŷn ddwy bleidlais yn etholiadau'r Senedd.

### A wyddost ti?

Cafodd pobl ifanc 16 a 17 mlwydd oed bleidleisio, am y tro cyntaf, yn etholiadau'r Senedd ym mis Mai 2021.

| **Eglura sut mae dy AS etholaethol yn cael ei ethol:** | **Eglura sut mae dy AS rhanbarthol yn cael ei ethol:** |
|---|---|
| | |



## Ffurfio llywodraeth

Ar ôl etholiad, y blaid neu bleidiau sydd â'r nifer fwyaf o seddi sydd fel arfer yn ffurfio llywodraeth.

Llywodraeth Cymru sy'n rheoli'r wlad. Mae'n cynnig mwyafrif y cyfreithiau newydd a hi sy'n gyfrifol am adrannau'r llywodraeth a gwariant. Os nad oes gan unrhyw blaid wleidyddol fwyafrif cyffredinol, fe allai llywodraeth glymblaid gael ei ffurfio, lle bydd dwy blaid wleidyddol neu ragor yn cydweithio i redeg y wlad.

**Pa Weinidog neu Ddirprwy Weinidog yn Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am y pynciau a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Chwaraeon: | Y Gymraeg: |
| Cydsyniad tybiedig ar gyfer rhoi organau: | Tyllu'r corff (oedran cydsynio): |
| Llwybrau beicio: | Safonau ysgolion: |
| Diogelwch bwyd: | Tai: |

**Rhestra'r ffyrdd y gall Aelodau o'r Senedd gadw llygad ar waith y llywodraeth:**

# Gwneud cyfreithiau i siapio bywyd yng Nghymru

Y Senedd yw'r corff sy'n deddfu ar gyfer Cymru, sef Deddfau'r Senedd. Ar ffurf drafft, yr enw am y rhain yw Biliau.

**Mae pedwar prif gyfnod yn y broses o ddeddfu. Rhestra'r cyfnodau hyn mewn trefn, drwy fewnosod 1-4 wrth bob gosodiad.**

- Pleidlais gan y Senedd i basio neu wrthod testun terfynol y Bil. ◯
- Aelodau o'r Senedd yn penderfynu a oes angen y gyfraith newydd ar Gymru. ◯
- Aelodau o'r Senedd yn cyfarfod yn y Cyfarfod Llawn i edrych ar y Bil, i adolygu awgrymiadau, i wneud gwelliannau pellach ac i wneud newidiadau terfynol i eiriad y Bil. ◯
- Mae pwyllgor yn ystyried y Bil (fesul llinell yn fanwl) ac yn gwneud newidiadau i'r geiriad. ◯

## A wyddost ti?

Mae'r Frenhines yn rhoi Cydsyniad Brenhinol i'r Bil ar ôl Cyfnod 4. Mae'n gytundeb ffurfiol y gall y Bil ddod yn Ddeddf y Senedd, sef deddf newydd yng Nghymru.

Cyn 2011, yr enw ar gyfer pob deddf oedd Mesur.



## Gwaith ymchwil ar-lein

Defnyddia wefan y Senedd i ddod o hyd i rai cyfreithiau eraill y mae'r Senedd wedi eu pasio.

**Enwa gyfraith arall a basiwyd gan y Senedd. Eglura beth yw pwrpas y gyfraith:**

## A wyddost ti?

Bydd Aelodau o'r Senedd yn ymgynghori â thystion arbenigol, ac yn aml byddan nhw'n gofyn barn gwahanol sefydliadau ac aelodau o'r cyhoedd i'w helpu i ffurfio deddf newydd ar gyfer Cymru.

Dyma enghreifftiau:

**Deddf Teithio Llesol (Cymru)** – sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr, ac ystyried eu hanghenion wrth baratoi cynlluniau ffyrdd newydd.

**Deddf Trawsblannu Dynol (Cymru)** – sy'n cyflwyno system feddal o optio allan ar gyfer rhoi organau a meinwe, lle mae'n cael ei barnu bod cydsyniad wedi'i roi, oni bai bod yr ymadawedig wedi gwrthwynebu yn ystod ei oes.

# Craffu ar y gyllideb

## Mae Llywodraeth y DU yn casglu trethi gan bawb yn y DU. Daw rhan o’r arian hwn yn ôl i Gymru i ddarparu cyllid i Lywodraeth Cymru gynnal y wlad.

Gwaith y Senedd yw gwirio sut mae’r arian hwn yn cael ei wario, a hynny yn ystod adolygiadau o’r gyllideb bob blwyddyn yn y Cyfarfod Llawn.

### A wyddost ti?

Mae Awdurdod Cyllid Cymru hefyd yn gyfrifol am gasglu rhai trethi ychwanegol yng Nghymru.

Bydd Aelodau o’r Senedd yn gwirio pob awgrym am dreth newydd i wneud yn siŵr ei fod yn deg. Mae hefyd yn gwirio sut mae Llywodraeth Cymru yn gwario arian y cyhoedd.

### Gwaith ymchwil ar-lein:

Defnyddia wefan Awdurdod Cyllid Cymru i ddysgu am rai trethi sy’n cael eu casglu yng Nghymru: **llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru**


**Darganfydd pa drethi y mae Awdurdod Cyllid Cymru yn eu casglu yng Nghymru:**




**Pa Bwyllgorau sy’n edrych ar wariant y llywodraeth ar y pynciau canlynol?**

Ysgrifenna’r rhif o restr y pwyllgorau yn y cylch.

1. Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon a Chysylltiadau Rhyngwladol
2. Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
3. Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
4. Y Pwyllgor Cyllid
5. Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith



**Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru**



**Cadwraeth Forol**



**Amgueddfeydd**



**Aflonyddu rhwng cyfoedion ymhlith disgyblion ysgolion uwchradd yng Nghymru**



**Rhyddhau cleifion o’r ysbyty**

# Cyfarfod fy Aelod

**Enwa'r Aelod neu'r Aelodau rwyt ti wedi cyfarfod â nhw heddiw:**

**Enwa bwyllgor y maen nhw'n aelod ohono:**

**Beth yw uchafbwynt eu gyrfa hyd yn hyn:**

**Beth maen nhw'n credu ynddo:**

**Beth yw eu blaenoriaethau ar gyfer newid i bobl ifanc:**

**Pa ymgyrchoedd y maen nhw yn ymwneud â nhw yn ddiweddar:**



# Pwyntiau trafod

### Wyt ti'n credu y dylai'r Senedd gael mwy o bwerau?

- Os felly, ym mha feysydd?
- Os na, pam lai?

### Beth yw diben cael gwahanol bleidiau gwleidyddol?

- Pa blaid fyddet ti'n pleidleisio drosti?

### Pam wyt ti'n meddwl bod nifer y bobl sy'n pleidleisio yn etholiadau'r Senedd yn isel?

- Pa bethau y gallai rhywun eu gwneud am hyn?

### "Er mwyn craffu'n effeithiol, rhaid i'r Senedd gynyddu o ran maint, o 60 Aelod i rhwng 80 a 100 o Aelodau."

- Wyt ti'n cytuno neu'n anghytuno?
- Pam?





# Gwaith ymchwil ar-lein

Yn y llyfryn hwn, mae llawer o gyfleoedd i wneud ychydig o ymchwil ar-lein i ddod o hyd i'r atebion i rai o'r cwestiynau.

Dyma restr o rai gwefannau defnyddiol y gelli di eu defnyddio i ddysgu mwy am y Senedd.

- **www.senedd.cymru**
- **www.senedd.cymru/sut-rydym-yn-gweithio**
- **www.senedd.cymru/dod-o-hyd-i-aelod-o-r-senedd**
- **www.senedd.cymru/pwyllgorau**
- **www.llyw.cymru/aelodaur-cabinet-gweinidogion**

# Geirfa

## Y Cyfarfod Llawn

Dyma'r term i ddisgrifio cyfarfod llawn o'r 60 Aelod o'r Senedd yn y Siambr (prif siambr y Senedd) i fwrw ymlaen â gwaith y Senedd. Ar hyn o bryd, yn ystod y tymor, mae'r Cyfarfod Llawn yn cael ei gynnal yn y Siambr ar brynhawn Mawrth a phrynhawn Mercher.

## Lobïo

Lobïo yw pan fydd unigolion, busnesau, undebau llafur, grwpiau neu elusennau yn ceisio cael llywodraeth i newid ei pholisïau.

## Datganoli

Datganoli yw trosglwyddo neu ddirprwyo pŵer i lefel fwy lleol. Yng Nghymru, mae pwerau wedi'u datganoli oddi wrth Weinidogion y DU i Weinidogion Cymru ac mae pwerau deddfu wedi'u datganoli o Senedd y DU i Senedd Cymru.

## Cymhorthfa

Mae cymhorthfa neu glinig gwleidyddol yn gyfres o gyfarfodydd un-i-un y gall Aelod o'r Senedd eu cael gyda'i etholwyr, lle mae etholwr yn cael codi materion o bryder lleol.

## Bil

Cyfraith arfaethedig yw Bil. Os bydd y Senedd yn cymeradwyo'r cynigion, yna bydd y Bil yn barod i ddod yn Ddeddf.

## Deddf y Senedd

Os bydd y Senedd yn cymeradwyo cynigion ar gyfer cyfraith neu fil arfaethedig, mae'n barod i ddod yn Ddeddf. Cyn y gall Bil ddod yn Ddeddf y Senedd, rhaid i'r Frenhines ei gymeradwyo. Enw'r broses hon yw Cydsyniad Brenhinol. Cyfeirir yn aml at ddeddfau fel deddfwriaeth sylfaenol.

## Craffu

Pan fydd Senedd Cymru yn edrych yn fanwl ar waith Llywodraeth Cymru, dywedir ei bod yn cynnal Gwaith 'craffu'.

## Pwyllgor

Grwpiau bach o Aelodau o wahanol bleidiau gwleidyddol yw pwyllgorau. Bydd y pwyllgorau'n craffu ar ddeddfwriaeth arfaethedig (Biliau) a pholisïau Llywodraeth Cymru, a byddan nhw'n gwneud argymhellion i'w gwella.

## Deiseb

Gall y cyhoedd ddefnyddio y broses ddeisebau i ddwyn sylw'r Senedd at faterion penodol. Gall unigolion neu gyrff gyflwyno deisebau yn ymwneud ag unrhyw bwnc o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.





Senedd Cymru
Welsh Parliament

www.senedd.cymru | www.senedd.wales